Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd
Heol Casnewydd
Tredelerch
CF3 1XQ

06/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Rhagfyr 2025

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar y 4ydd a'r 5ed o Ragfyr 2025. Fe wnaethom werthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion, a chlywed mwy am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- gynnal trafodaethau ag arweinwyr a staff am eu hunanwerthuso a'u cynllunio gwelliant, a'u gwaith i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu
- siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- ymweld â sampl bach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- craffu ar sampl o waith disgyblion
- craffu ar sampl o ddogfennau perthnasol
- Arsylwi gwersi ar y cyd a chynnal gweithgareddau craffu ar lyfrau gydag arweinwyr, gan drafod y prif ganfyddiadau o'r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

### I ba raddau y mae effeithiolrwydd arweinyddiaeth wedi gwella ar bob lefel, yn cynnwys ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Ers adeg yr arolygiad diwethaf, mae'n glir fod arweinwyr wedi cymryd ystod o gamau i gryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae hyn wedi cynnwys cynyddu cyfrifoldebau staff a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwella. O ganlyniad, mae'r staff wnaethon ni gyfarfod â nhw yn ystod yr ymweliad yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn yr agwedd hon ar waith yr ysgol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Roedd yn ddiddorol clywed sut mae athrawon, yn ogystal ag arweinwyr canol, yn gwerthuso'u gwaith eu hunain trwy ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau monitro. Mae hyn wedi creu diwylliant myfyriol lle mae staff yn agored i fireinio a gwella'u harfer. Roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae uwch arweinwyr yn sicrhau ansawdd gwerthusiadau arweinwyr canol ac yn cynnal ystod o weithgarwch ar y cyd â nhw i sicrhau bod disgwyliadau'n gyson ac yn cael eu deall yn glir.

Mae arweinwyr yn gwerthuso ansawdd darpariaeth yn ôl ei heffaith ar safonau a chynnydd disgyblion, yn cynnwys deilliannau arholiadau. Nodwyd eu bod yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i werthuso ansawdd yr addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu'r disgyblion.

Gallai fod yn ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Pa mor fanwl y mae gwerthusiad arweinwyr o ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gaffael gwybodaeth bwnc gan ddisgyblion, a datblygiad eu medrau?
- Sut gall arweinwyr nodi a blaenoriaethu'r meysydd allweddol sydd angen eu gwella fwyaf?

## Faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud yn gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu yn yr ysgol?

Roedd yn ddiddorol dysgu am ail-lansio chwe nodwedd gwersi llwyddiannus Sant Illtyd ('St Illtyd's Six') er mwyn gwella dysgu ac addysgu. Clywsom am y modd y bu arweinwyr yn ymgysylltu ag athrawon er mwyn cytuno ar ymagwedd gyson at gymhwyso strategaethau addysgu cytûn. Clywsom am y modd y mae athrawon yn teimlo'u bod yn cymryd rhan yn y gwaith hwn, ac yn cymryd mwy o berchnogaeth mewn meysydd fel asesu ac adborth. Yn ychwanegol, mae'n ymddangos bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cefnogi'r gwaith hwn yn dda.

Roedd hefyd yn ddiddorol clywed am y sesiynau dysgu proffesiynol sy'n cael eu cylchdroi ar gyfer staff sy'n cefnogi'ch gwaith i wella addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys ymgorffori gweithgareddau mwy heriol ar gyfer disgyblion a modelu a rhannu arfer effeithiol ymhlith staff.

Yn y sampl bach o wersi a welwyd, roedd yn dda gweld y berthynas waith werthfawr a chadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion. O ganlyniad i hyn, sylwom fod disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn barod i ddysgu. Mae gwaith yr ysgol yn hyrwyddo chwe nodwedd gwersi llwyddiannus Sant Illtyd wedi cyfrannu at greu arferion ystafell ddosbarth cyson lle mae disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu.

Gallai fod yn ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw athrawon bob amser yn sicrhau bod cwestiynau'n ddigon heriol i alluogi disgyblion i ddatblygu eu meddwl a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol ymhellach?
- Wrth gynllunio gwersi, a yw athrawon yn rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion?
- A yw athrawon yn rhoi cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn gwersi  a thu allan i'r ystafell ddosbarth?

Diolch eto am eich holl gymorth yn cynllunio ac yn trefnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i chi gyda'ch datblygiadau yn y dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/st-illtyds-r-c-high-school-cy/

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro